

Cofion

- Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf â Gwennan Hughes a Sian Evans (Saron) a gweddill y teulu ym marwolaeth eu mam, Mrs Morfydd Williams. Gweddiwn y bydd y teulu oll yn adnabod cysur cwmni Duw a'i dangnefedd dros y dyddiau hyn.
- Anfonwn ein cofion at Dilys Jones (Nantglyn) sydd wedi bod yn Ysbyty Glan Clwyd ar hyd yr wythnos. Yr ydym yn ei chyflwyno hi, fel eraill yn yr ofalaeth sydd heb fod yn mwynhau'r iechyd gorau, i ofal yr Arglwydd.

Diolch

Diolch o galon i chi am eich cyfraniadau hael dros yr wythnosau diwethaf i Apêl Ethiopia ac i Gasgliad Arbennig Chwiorydd y Gogledd, Eglwys Bresbyteraidd Cymru. Mae cyfanswm o £506.00 wedi ei anfon tuag at waith y Chwiorydd, a chyfanswm o £2,146.00 wedi ei anfon i Apêl Ethiopia trwy law Tearfund.

“Cariwch feichiau eich gilydd, ac felly fe gyflawnwch Gyfraith Crist.” (Galatiaid 6:2)

Bws Mini i Sasiwn Chwiorydd y Gogledd

Bydd bws mini 'Cart y Plwyf' yn mynd â chriw o'r Fro i'r Sasiwn yng Nghorwen ar ddydd Mercher, Mai 10fed. Os oes gennych ddiddordeb i deithio ar y bws, cysylltwch â Llinos Rees (01745) 550261 erbyn Mai 3ydd, os gwelwch yn dda. Y cyntaf i'r felin....!

I ddod

- **CYFARFOD CHWIORYDD HENADURIAETH DYFFRYN CLWYD** – Noson Gymdeithasol yn Festri Capel Mawr, Dinbych nos Fawrth, Ebrill 25ain am 7.30 yng nghwmni y Parch. Hywel Meredydd. Darperir lluniaeth ysgafn am bris rhesymol.
- **‘SUT MAE CRISTNOGION YN WYNEBU PRYDERON?’** yng nghwmni Ben Nuss yn Festri Llansannan nos Fercher, Ebrill 26ain am 7.30.
- **SASIWN CHWIORYDD Y GOGLEDD** yn Eglwys Unedig Seion/Bryneglwys, Corwen dydd Mercher, Mai 10fed gyda Bethan Davies, Port Talbot yn annerch am 2.00 ac Arfon Jones, Caerdydd am 5.30.

Darlleniad Wythnos Nesaf

Ioan 20:24-29 (BCND tud.127 / BCN tud.116)

Manylion Cyswllt

Rhodri – 📧 rhodri@eglwysibroaled.com 📞 01745 870522 📱 07814 660291
Gwion – 📧 gwion@eglwysibroaled.com 📞 01745 582644 📱 07849 591163
Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com 📞 01745 870632 📱 07900 627536
Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher, os gwelwch yn dda.



Llais Bro Aled

Dydd Sul, 16^{eg} Ebrill 2017

Darlleniad y Dydd

Eseia 53:4-6

(BCND tud.670 / BCN tud.611)

eglwysibroaled.com

rhaglendorcas.com

llanw.org

hyfforddiantdawn.com

Croeso cynnes i bawb ohonoch i wasanaethau Pasg 2017 Bro Aled. Dros y Sul arbennig hwn pan fyddwn yn myfyrio ar groeshoeliad ac atgyfodiad Iesu Grist, gweddiwn am gymorth Duw i fwrw ein baich ar yr Arglwydd sy'n cynnal (Salm 55:22), i ni roi ein hunain i Grist, ein Duw byw.

Ar brydiau mae digwyddiadau erchyll yn gwneud i ni ofyn cwestiynau dwys ynglŷn â phwy ydym fel pobl a sut fath o fyd yr ydym yn byw ynddo. Gwelwyd hyn yn ddiweddar wrth i'r newyddion adrodd am y defnydd ffaidd o arfau cemegol yn Syria. Ond wrth edrych ar faterion fel hyn, mae'n hawdd i ni yng nghyfforddusrwydd Cymru ddiystyru cwestiynau dwys gan ddweud – “does gan hyn ddim i'w wneud â mi.” Ond pan edrychwn ar ddigwyddiadau'r Pasg, does gan neb ohonom le i guddio nac i wneud esgusodion. Mae marwolaeth Mab Duw ar y groes yn golygu'i bod yn gwbl briodol fod pob person yn holi ei hun. Pan fyddwn yn ystyried beth sy'n allweddol i Gristnogaeth, mae digwyddiadau'r Pasg yn gorfod bod yn ganolog yn ôl tystiolaeth y Beibl. O ddiystyru pwysigrwydd y Groes a'r bedd gwag, yn sydyn iawn bydd y ffurf o Gristnogaeth sydd gennym yn troi'n grefydd ffug gyda'r pwyslais ar beth rydym ni fel pobl yn gallu ei wneud, yn hytrach na phwyslais y Beibl ar ras a chariad Duw ar waith er gwaethaf methiant a gwrthryfel pobl. Dyma gaiff ei ragfynegi yn ein darlleniad heddiw o Eseia 53 – gwas Duw yn dioddef am bechodau'r euog. Daw iachâd a heddwch, dim ond oherwydd bod Un wedi cael ei gleisio a'i ddrillio am bechodau'r bobl. Pan drow'n i'r Testament Newydd daw'n gwbl amlwg mai Iesu o Nasareth oedd y gwas dioddefus hwn – y cyfiawn yn marw dros yr anghyfiawn i'n dwyn ni at Dduw (1 Pedr 3:18). O ystyried arwyddocâd y Pasg, daw sefyllfa druenus dynion a merched pechadurus yn boenus o glir. Nid oes posib i ni ddod allan o'r twll yr ydym ynddo, nid oedd modd i ni wella'n hunain o glwyf marwol pechod, a'r unig obaith am achubiaeth yw'r hyn a gyflawnodd Iesu. Derbyniodd gosb pechod arno'i hun ac er iddo farw, atgyfododd yn fyw gan gael y gorau hyd yn oed ar farwolaeth, y gelyn olaf, a sicrhau bywyd tragwyddol i bawb sy'n credu ynddo. “Myfi yw'r atgyfodiad a'r bywyd. Pwy bynnag sy'n credu ynof fi, er iddo farw, fe fydd byw; a phob un sy'n byw ac yn credu ynof fi, ni bydd marw byth.” (Ioan 11:25-26) Ac felly, rhown ein ffydd yn Iesu – gan droi cefn ar ein pechod, diolch a llawenhau fod maddeuant i'w gael hyd yn oed i ni, a gobaith am byth oherwydd beth wnaeth Iesu. ‘Fe ydy'r unig un sy'n achub! Does neb arall yn unman sy'n gallu achub pobl.’ (Actau 4:12)

DILYNWCH NI: @eglwysibroaled



Rhodri

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma – 16^{eg} ➤ Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Sarah, a bydd Rhodri yn pregethu.
- Sul nesaf – 23^{ain} ➤ Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Gwion, a bydd y Parch. Dewi Tudur yn pregethu.

Llansannan a Nantglyn

- Sul yma – 16^{eg} ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa gymun yn Llansannan am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul i'r oedolion am 11.10.
- Bydd Rhodri yn arwain oedfa yn Nantglyn am 2.00.
- Sul nesaf – 23^{ain} ➤ Bydd Mr Dafydd Timothy yn arwain oedfa yn Llansannan am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul i'r oedolion am 11.10. Cynhelir Pwyllgor Cymorth Cristnogol yn Ystafell y Blaenoriaid, Capel Coffa Henry Rees am 7.30.
- Ni fydd oedfa yn Nantglyn.

Saron a Pheniel

- Sul yma – 16^{eg} ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith ym Mheniel am 10.00 a bydd Ysgol Sul yno am 2.00.
- Sul nesaf – 23^{ain} ➤ Bydd y Parch. John Robinson yn arwain oedfa i'r daith yn Saron am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul yn cydreddeg â'r oedfa yn Saron am 2.00.

Henllan a Groes

- Sul yma – 16^{eg} ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yn Henllan am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes a Henllan am 10.00.
- Sul nesaf – 23^{ain} ➤ Bydd y Parch. John Robinson yn arwain oedfa i'r daith yn Groes am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 2.00.

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma – 16^{eg} ➤ Bydd Gwasanaeth y Pasg yn Llanefydd am 10.00 dan ofal yr Ysgol Sul, a Gwasanaeth y Pasg gyda Gwion a'r ieuencid am 6.00. Bydd Gwasanaeth wedi ei drefnu yng Nghefn Berain am 10.00.
- Sul nesaf – 23^{ain} ➤ Bydd y Parch. David Owens yn arwain oedfa yng Nghefn Berain am 10.00 ac yn Llanefydd am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul yn cydreddeg â'r oedfa yng Nghefn Berain am 10.00.

Cyhoeddiadau

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma – 16^{eg} ➤ Bydd y Parch. Brian Wright yn arwain oedfa yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 2.00.
- Sul nesaf – 23^{ain} ➤ Bydd y Parch. Goronwy Prys Owen yn arwain oedfa yn Llanfair am 10.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30.

LLANW yn Neuadd Goffa Cricieth, LL52 0HB

- Llun – 17^{eg} ➤ **Dathliad i'r teulu cyfan** dan arweiniad Menna Machreth am 7:00.
- Mawrth – 18^{fed} ➤ **Oedfa'r bore** dan arweiniad y Parch. John Treharne am 10:00.
- **Seminarau** am 12:00:
- 'Os ydy un rhan o'r corff yn dioddef, mae'r corff i gyd yn dioddef: Gwersi o'r eglwys sy'n cael ei erlid' – Mathew Rees;
 - 'William Williams, Pantycelyn: carwr ar grwydr' – E. Wyn James.
- **Prynhawn hwyl i'r teulu cyfan** gyda bwyd i bawb am 2:00.
- **Dathliad yr hwyr** dan arweiniad Arfon Jones am 7:00.
- **Gweithgareddau anffurfiol** am 9:00.
- Mercher – 19^{eg} ➤ **Oedfa'r bore** dan arweiniad y Parch. John Treharne am 10:00.
- **Seminarau** am 12:00:
- Cenhadaeth Newydd i Gymru 1 – 'Cyd-destun cenhadol Cymru';
 - 'Gobaith mewn anobaith': Tearfund ar waith yn Malawi – Mari Williams a Hywel Meredydd.
- **Taith gerdded / Nofio yn Hafan y Môr** am 2:00.
- **Dathliad yr hwyr** dan arweiniad Rhiannon Lloyd am 7:00.
- **Addoliad ychwanegol** am 9:00.
- Iau – 20^{fed} ➤ **Oedfa'r bore** dan arweiniad y Parch. John Treharne am 10:00.
- **Seminarau** am 12:00:
- Cenhadaeth Newydd i Gymru 2 – 'Perspectif o'r genhadaeth yn yr India';
 - 'Gobaith y Groes mewn byd o boen' – Rhiannon Lloyd.
- **Gweithgarwch prynhawn** am 2:00.
- **Swper gyda'n gilydd** (*pawb i ddod â'u bwyd i'r neuadd yng Nghricieth*)
- **Dathliad yr hwyr** dan arweiniad Rhun Murphy am 7:00.
- **Y Sioe Dalent Orau Erioed** am 9:00.